**Rhif: WG54298**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Ymatebion i’r Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Godau Presenoldeb yn yr Ysgol

Ymgynghoriad ar ganllawiau drafft ar gyfer codau presenoldeb yn yr ysgol

Mehefin 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Crown copyright xxxx Digital ISBN

## Trosolwg

Nid yw presenoldeb yn yr ysgol yng Nghymru wedi adfer yn llawn eto i'r lefelau cyn y pandemig. Mae Estyn yn adrodd bod presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn COVID-19, ac y gallai gymryd amser i ddychwelyd i'r lefelau blaenorol heb gamau parhaus wedi'u targedu.

Er bod presenoldeb wedi gwella yn raddol, mae data cywir a manwl ar bresenoldeb yn hanfodol i ddeall patrymau a chyfeirio cefnogaeth yn effeithiol. Ers i'r codau presennol gael eu cyflwyno yn 2010, rydym wedi wynebu pandemig, ac ers hynny mae'r byd addysg wedi esblygu'n sylweddol, gan gynnwys twf mewn dysgu ar-lein ac o bell, amserlenni mwy hyblyg, cofrestru deuol a darpariaeth ran-amser. Mae'r newidiadau hyn yn gofyn am fframwaith codio sy'n adlewyrchu cyd-destunau dysgu gwahanol yn well ac yn cefnogi goruchwyliaeth gadarn.

Mae blaenoriaethau diogelu a lles, fel y Dull Ysgol Gyfan a thystiolaeth gynyddol o absenoldeb nad yw'n gysylltiedig ag iechyd corfforol, yn tynnu sylw at yr angen am godau sy'n nodi salwch nad yw'n gorfforol a rhwystrau i bresenoldeb. Mae ystyriaethau tegwch a chynhwysiant, gan gynnwys canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac amgylchiadau teuluol a chymdeithasol sy'n newid, yn gofyn am godau cliriach i sicrhau cysondeb a thegwch. Bydd y diwygiadau yn sicrhau bod y fframwaith codio yn adlewyrchu realiti addysg fodern, yn cryfhau ansawdd data, yn cefnogi diogelu ac yn sicrhau bod modd casglu mwy o ddata cyson o ansawdd uchel ledled Cymru.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Cefnogi Mynediad at Addysg

Tegwch mewn Addysg

Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost:

AdolygiadYCP.ACCReview@gov.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o’r ymateb a chopïau o’r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i’r dogfennau ymgynghori: Adolygiad o godau presenoldeb yn yr ysgol

# Cynnwys

Cynnwys .... 4
Cyflwyniad .... 5
  Gwybodaeth am yr ymgynghoriad .... 5
Camau nesaf .... 5
Methodoleg a dadansoddiad .... 6
  Proses yr ymgynghoriad .... 6
  Cynllun yr Arolwg .... 7
  Proffil ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad .... 7
Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad .... 7
  Dadansoddiad meintiol o'r cwestiynau caeedig .... 7
  Dadansoddiad o'r sylwadau ategol .... 8
Cwestiynau'r ymgynghoriad .... 8
  1. Codau ar gyfer presennol a hwyr .... 8
  1. Gweithgaredd addysgol cymeradwy .... 12
  2. Absenoldeb awdurdodedig .... 21
  3. Absenoldeb anawdurdodedig .... 39
  4. Dim rhaid bod yn bresennol .... 43
Ymateb Llywodraeth Cymru .... 56

# Cyflwyniad

## Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canfyddiadau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar weithredu codau presenoldeb newydd mewn ysgolion a diwygiadau i'r codau presenoldeb cyfredol.

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn llywio fersiwn derfynol y codau a fydd yn cael eu lansio erbyn y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi 2026.

## Camau nesaf

Yn dilyn dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar godau presenoldeb, bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â rhaglen waith i helpu i wella cysondeb, eglurder a defnydd o ddata presenoldeb ledled Cymru.

### Cyflwyno codau presenoldeb diwygiedig

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru ac yn cyhoeddi codau presenoldeb diwygiedig a chanllawiau cysylltiedig sy'n sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion cyfredol ac yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o sut i gofnodi'n gywir y rhesymau dros absenoldeb disgyblion. Bwriad y codau diwygiedig yw gwella cysondeb yn y dull o gofnodi presenoldeb ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, a chryfhau ansawdd a defnyddioldeb data presenoldeb ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn deall yn well y rhesymau dros absenoldeb parhaus.

### Hyfforddiant a chymorth

Er mwyn helpu i gyflwyno'r codau yn effeithiol, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn darparu rhaglen hyfforddi strwythuredig ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg ym mhob awdurdod lleol. Bydd hyn yn hyrwyddo proses gyson o ddeall a chymhwyso'r codau presenoldeb diwygiedig.

Bydd awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi i raeadru'r hyfforddiant hwn i ysgolion, gan sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u paratoi i gymhwyso'r canllawiau sydd wedi'u diweddaru mewn ffordd gyson. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i wella cywirdeb cofnodion, bydd yn sicrhau mwy o gysondeb mewn ymarfer ledled Cymru, a bydd yn cefnogi dealltwriaeth gyffredin o'r disgwyliadau o ran presenoldeb.

### Gweithio mewn partneriaeth a pharodrwydd y system

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cyflenwi allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a darparwyr systemau gwybodaeth reoli (MIS), er mwyn helpu i sicrhau bod y systemau yn barod i'w gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau'n cael eu diweddaru yn unol â'r codau diwygiedig a bod ysgolion yn gallu cofnodi presenoldeb yn gywir gan ddefnyddio eu platfformau presennol.

Bydd ymgysylltiad parhaus â phartneriaid yn helpu i sicrhau pontio effeithiol a chyson i'r trefniadau newydd.

### Monitro a Gwerthuso

Ar ôl cyflwyno'r system newydd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro data presenoldeb er mwyn asesu effaith y codau diwygiedig ar ansawdd data a chryfhau dealltwriaeth o batrymau a sbardunau absenoldeb.

Bydd dadansoddiad o ddata presenoldeb gwell yn helpu i nodi tueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau bod modd datblygu ymyriadau a chymorth wedi'u targedu ar sail gwybodaeth. Bydd hyn yn bwysig iawn wrth gefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o fod yn absennol yn barhaus.

### Datblygu polisi yn barhaus

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid, yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth barhaus ar gyfer polisi ar bresenoldeb. Bydd hyn yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried unrhyw welliannau eraill i godau presenoldeb a chanllawiau ehangach ar bresenoldeb lle bo angen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y polisi ar bresenoldeb yn parhau i ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r fei ac yn helpu i sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr ledled Cymru.

## Methodoleg a dadansoddiad

Mae'r adran hon yn amlinellu'r dull o gasglu a dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr "Adolygiad o godau presenoldeb yn yr ysgol".

## Proses yr ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o chwe wythnos, rhwng 12 Chwefror 2026 a 26 Mawrth 2026.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â'r codau presenoldeb cyfredol mewn ysgolion yn ogystal â chyflwyno codau newydd, ynghyd â chwestiynau safonol am yr iaith Gymraeg, ac fe'i cyhoeddwyd ar dudalennau ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar-lein, mewn e-bost neu mewn llythyr, yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Hefyd, lluniodd Llywodraeth Cymru ddogfen ganllawiau ddrafft yn esbonio'r codau presennol a'r codau newydd. Nod y ddogfen ganllawiau ddrafft hon oedd cynorthwyo ymatebwyr i ateb cwestiynau'r ymgynghoriad. Rhannwyd y ddolen i'r ymgynghoriad ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychioladol, cyrff proffesiynol, sefydliadau sector, Undebau ac Awdurdodau Lleol. Fe'i hyrwyddwyd trwy ein rhwydweithiau Awdurdodau Lleol, Dysg a rhwydweithiau polisi addysg ehangach.

## Cynllun yr Arolwg

Roedd yr holiadur ymgynghori yn cynnwys:

- Deugain o gwestiynau caeedig yn gofyn am safbwyntiau ymatebwyr ar bob un o'r newidiadau arfaethedig. Gofynnodd y cwestiynau i'r ymatebydd roi ateb cadarnhaol, negyddol neu nodi 'Ddim yn siŵr'. Roedd yr holiadur yn cynnwys blwch sylwadau testun agored ar ôl pob un o'r cwestiynau caeedig er mwyn i ymatebwyr ychwanegu unrhyw sylwadau ategol.

## Proffil o'r ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 60 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. Cyflwynwyd 48 o ymatebion ar-lein a chyflwynwyd 12 ymateb drwy e-bost. Daeth ymatebion i law gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd, Unedau Cyfeirio Disgyblion, sefydliadau addysg uwch ac Undebau. Mae hyn yn adlewyrchu natur dechnegol y pwnc, sy'n cael ei ddefnyddio a'i ddeall yn bennaf gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn hytrach na'r cyhoedd yn ehangach.

Cytunodd 12 sefydliad i gyhoeddi eu henwau fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad. Sef:

- Ysgol Uwchradd Gwernyfed
- Gwasanaeth Lles Addysg Sir Benfro
- Canolfan Addysg Tŷ Gwyn
- Ysgol Llanfyllin
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
- Cyngor Sir Powys
- NAHT Cymru

Roedd yr holl ymatebwyr eraill eisiau aros yn ddienw.

## Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Dadansoddiad meintiol o'r cwestiynau caeedig

Cynhyrchwyd cyfansymiau amlder ar gyfer pob un o'r deugain cwestiwn caeedig a ofynnwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Gan ddefnyddio'r ddogfen ganllawiau ddrafft a gynhyrchwyd, roedd modd i ymatebwyr roi tic yn y blychau i nodi atebion cadarnhaol, negyddol a 'Ddim yn siŵr'. Gofynnwyd a oedd yr wybodaeth ychwanegol hon yn darparu mwy o eglurder.

## Dadansoddiad o’r sylwadau ategol

Cwblhawyd dadansoddiad thematig o’r data ansoddol (sylwadau ategol a gyflwynwyd gan ymatebwyr i’r cwestiynau testun agored), adolygwyd pob ymateb, a nodwyd y themâu.

## Cwestiynau’r ymgynghoriad

Noder: Nid oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn, felly ar gyfer rhai cwestiynau bydd y gyfradd ymateb yn is na’r 60 ymateb a nodwyd yn y paragraff blaenorol.

### 1. Codau ar gyfer presennol a hwyr

**Cwestiwn 1**

**1.1 A yw’r wybodaeth ychwanegol ar gyfer y codau /\ yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 1: Ymatebion i Gwestiwn 1**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 47 | 82.46% |
| Nac ydy | 7 | 12.28% |
| Ddim yn siŵr | 3 | 5.26% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Ydy’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr wedi croesawu’r disgwyliadau cliriach yn ymwneud â chyfnodau cofrestru, yn enwedig y pwyslais ar gofrestrau’n cau ar ôl 30 munud. Nododd llawer o ymatebwyr y byddai hyn yn cryfhau cysondeb, diogelu, ac arferion ymateb ar y diwrnod cyntaf.
- Nododd yr ymatebwyr fod yr eglurhad yn helpu i leihau amrywiadau lleol mewn ymarfer, yn enwedig o safbwynt cofrestru yn y prynhawn a sut mae lleoliadau gwahanol yn cofnodi diffyg prydlondeb.
- Nododd sawl cyfrannwr fod geiriad cliriach yn cefnogi proses codio presenoldeb fwy cywir a phroses y gellid ei hamddiffyn yn fwy cadarn, gan gynyddu hyder yn ansawdd data ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chenedlaethol.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod yr wybodaeth ddiwygiedig yn atgyfnerthu’r gwahaniaeth statudol rhwng presennol, hwyr ac absennol, gan helpu ysgolion i gymhwyso codau yn fwy cyson a lleihau amwysedd ar gyfer staff sy’n gyfrifol am gwblhau’r gofrestr.

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r newidiadau yn cefnogi deialog broffesiynol gyda rhieni trwy ddarparu canllawiau cenedlaethol cadarnach y gall ysgolion gyfeirio atynt wrth esbonio penderfyniadau am bresenoldeb.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd yr wybodaeth ychwanegol yn newid arferion presennol yn sylweddol, yn enwedig mewn ysgolion sydd eisoes â gweithdrefnau presenoldeb lleol clir.
- Codwyd pryderon bod y canllawiau yn parhau i fod yn rhy ragnodol, ac roedd llawer yn pryderu am y bwriad i gymhwyso trothwy 30 munud yn gyffredinol mewn lleoliadau sydd â chyd-destunau gweithredol gwahanol (e.e. cludiant yn rhedeg yn hwyr, unedau cynhwysiant mewnol, ysgolion gwledig).
- Roedd nifer o'r ymatebion yn cwestiynu a fyddai rhagor o fanylion yn arwain at eglurder mewn gwirionedd, gan awgrymu yn hytrach y gallai gynyddu'r baich gweinyddol neu greu cyfleoedd pellach ar gyfer camddehongli.
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at anghysondeb gweddilliol yn y geiriad, yn enwedig pan fo cysyniadau tebyg (e.e. amseriad cau'r gofrestr) yn cael eu mynegi mewn ffordd ychydig yn wahanol mewn gwahanol adrannau o'r canllawiau.
- Roedd galwadau am enghreifftiau cliriach, yn enwedig mewn senarios annodweddiadol, er mwyn helpu ysgolion i gymhwyso'r canllawiau yn gymesur ac osgoi deongliadau rhy gaeth.

**Cwestiwn 2**

**1.2 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod L yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 2: Ymatebion i Gwestiwn 2**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 42 | 73.68% |
| Nac ydy | 9 | 15.79% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 10.53% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r disgwyliadau cliriach a mwy penodol yn ymwneud â chyfnodau cofrestru, yn enwedig y pwyslais cryfach ar gofrestrau'n cau ar ôl 30 munud. Roedd y rhan fwyaf yn credu y byddai hyn yn gwella diogelu, yn cefnogi prosesau ymateb ar y diwrnod cyntaf, ac yn atgyfnerthu arferion cyson ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Nododd ymatebwyr fod yr eglurhad yn helpu i leihau amrywiadau lleol o ran sut y cofnodir disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr, yn enwedig mewn perthynas â chofrestru yn y prynhawn a deongliadau gwahanol o'r angen i gofnodi bod disgybl yn hwyr neu'n absennol.
- Nododd nifer o gyfranwyr fod geiriad cliriach yn cefnogi proses codio presenoldeb fwy cywir a phroses y gellir ei hamddiffyn yn fwy cadarn, gan gynyddu hyder yn uniondeb a dibynadwyedd data presenoldeb ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chenedlaethol.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod yr wybodaeth ddiwygiedig yn atgyfnerthu'r gwahaniaeth statudol rhwng presennol, hwyr ac absennol, gan helpu staff sy'n gyfrifol am gwblhau'r gofrestr i gymhwyso codau yn fwy cyson ac yn fwy hyderus.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r canllawiau cryfach yn helpu ysgolion i gael sgyrsiau proffesiynol gyda rhieni, ac yn darparu disgwyliadau cenedlaethol cliriach y gellir cyfeirio atynt wrth esbonio penderfyniadau am bresenoldeb a chofnodion hwyr.

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Nac ydy’ neu ‘Ddim yn siŵr’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad yw’r wybodaeth ychwanegol yn newid arferion presennol yn sylweddol, yn enwedig mewn ysgolion neu awdurdodau lleol lle mae gweithdrefnau cofrestru a diffyg prydlondeb eisoes wedi’u sefydlu.
- Codwyd pryderon bod y canllawiau yn parhau i fod yn rhy ragnodol, yn enwedig y bwriad i gymhwyso trothwy 30 munud yn gyffredinol. Roedd rhai yn teimlo nad yw hyn yn adlewyrchu’n ddigonol cyd-destunau gweithredol gwahanol fel cludiant yn rhedeg yn hwyr, lleoliadau gwledig, unedau mewnol, neu ddarpariaeth amgen.
- Roedd nifer o ymatebion yn cwestiynu a yw cynyddu lefel y manylion yn arwain at eglurder mewn gwirionedd, gan awgrymu yn hytrach y gallai gynyddu’r baich gweinyddol neu greu cyfleoedd pellach ar gyfer camddehongli gan staff.
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at anghysondeb gweddilliol yn y geiriad, yn enwedig pan fo cysyniadau tebyg (e.e. amseriad cau’r gofrestr) yn cael eu mynegi mewn ffordd ychydig yn wahanol mewn gwahanol adrannau o’r canllawiau.
- Roedd galwadau am enghreifftiau cliriach, yn enwedig mewn senarios annodweddiadol neu eithafol, er mwyn helpu ysgolion i gymhwyso’r canllawiau yn gymesur ac osgoi deongliadau rhy gaeth yn ymarferol.

# 1. Gweithgaredd addysgol cymeradwy

**Cwestiwn 3**

**2.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod B yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 3: Ymatebion i Gwestiwn 3**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 47 | 82.46% |
| Nac ydy | 5 | 8.77% |
| Ddim yn siŵr | 5 | 8.77% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r diffiniad cliriach o'r hyn sy'n gyfystyr â gweithgaredd addysgol cymeradwy, yn enwedig yr eglurhad bod yn rhaid cyflwyno darpariaeth yn bersonol a sicrhau ei bod yn cael ei goruchwylio gan diwtor neu athro a gymeradwyir gan yr ysgol. Nodwyd yn gyffredinol y byddai hyn yn cryfhau diogelu ac yn lleihau defnydd amhriodol neu rhy eang o'r cod.
- Nododd ymatebwyr fod yr wybodaeth ddiwygiedig yn helpu i wahaniaethu'n gliriach rhwng darpariaeth bersonol a dysgu o bell neu ar-lein, gan gefnogi penderfyniadau codio mwy cyson a lleihau amwysedd blaenorol yn ymwneud â darpariaeth gyfunol neu ddigidol.
- Nododd nifer o gyfranwyr y byddai'r meini prawf cliriach ar gyfer Cod B yn helpu i ddarparu data presenoldeb mwy cywir, gan alluogi ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i wahaniaethu rhwng gweithgaredd addysgol cymeradwy ac absenoldeb awdurdodedig mewn ffordd fwy dibynadwy.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y canllawiau diwygiedig yn atgyfnerthu atebolrwydd ysgolion, trwy nodi'n glir bod disgwyl i ysgolion barhau i fod yn gyfrifol am oruchwylio, cofrestru a dilyniant pan ddefnyddir Cod B.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r eglurder yn lleihau arferion lleol anghyson, yn enwedig lle mae Cod B wedi cael ei ddefnyddio yn hanesyddol i gofnodi ystod eang o drefniadau oddi ar y safle neu drefniadau amgen heb oruchwyliaeth glir na safonau y cytunwyd arnynt.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder cyffredin oedd yr un am **ddileu dysgu o bell neu ddysgu ar-lein o God B**, ac roedd sawl ymatebydd yn dadlau bod darpariaeth ar-lein strwythuredig, dan oruchwyliaeth (yn enwedig ar gyfer dysgwyr agored i niwed, disgyblion sy'n osgoi ysgol am resymau emosiynol (EBSA), neu'r rhai sy'n derbyn cymorth meddygol neu gymorth sy'n gysylltiedig ag Addysg Heblaw yn yr Ysgol) yn cynrychioli ymgysylltiad gwirioneddol ag addysg ac na ddylid ei gofnodi fel absenoldeb.
- Mynegodd ymatebwyr bryder y gallai ailddosbarthu darpariaeth o'r fath fel absenoldeb awdurdodedig **gael effaith negyddol ar ffigurau presenoldeb**, gyda'r posibilrwydd o ddatgymell ysgolion ac awdurdodau lleol rhag cynnig pecynnau addysgol hyblyg neu bwrpasol sy'n diwallu anghenion dysgwyr unigol.
- Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod y diffiniad diwygiedig yn **rhy gyfyngol**, a'i fod yn methu ag adlewyrchu realiti modelau darpariaeth fodern, yn enwedig pan fo addysg yn cael ei darparu trwy **wasanaethau awdurdodau lleol, ysgolion rhithwir, neu drefniadau dull cymysg** sy'n cynnwys sgyrsiau diogelu ac addysgu strwythuredig.
- Codwyd cwestiynau am **ddehongli ymarferol**, gan gynnwys pwy sy'n gymwys i fod yn "diwtor neu athro a gymeradwyir gan yr ysgol", ac a fyddai gweithwyr proffesiynol eraill (e.e. gweithwyr ieuenctid, mentoriaid dysgu, neu staff awdurdodau lleol) sy'n darparu cymorth strwythuredig y tu allan i gwmpas Cod B.
- Rhybuddiodd sawl ymatebydd am y **canlyniadau anfwriadol** posibl, gan gynnwys mwy o bwysau ar wasanaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol, llai o gynhwysiant ar gyfer dysgwyr na allant fod yn bresennol yn gorfforol, a'r perygl na fydd data presenoldeb yn adlewyrchu'n gywir ymgysylltiad dysgwyr neu hawl addysgol.

**Cwestiwn 4**

**2.2 Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu'r cod P?**

**Tabl 4: Ymatebion i Gwestiwn 4**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydyn | 41 | 71.93% |
| Nac ydyn | 7 | 12.28% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 15.79% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydyn', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r penderfyniad i rannu'r cod P, gan nodi ei fod yn darparu mwy o gywirdeb a thryloywder trwy wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o berfformiadau a'r amgylchiadau perthnasol pan fydd disgyblion yn absennol.
- Nododd yr ymatebwyr y byddai rhannu'r cod yn helpu i gasglu a dadansoddi data mwy cywir, gan gynyddu dealltwriaeth ysgolion ac awdurdodau lleol o amlder, natur ac effaith absenoldebau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar lefel unigol a system.
- Roedd sawl cyfrannwr yn teimlo bod y newid yn gwella tegwch rhwng gwahanol fathau o weithgareddau, yn enwedig trwy gydnabod y celfyddydau perfformio ochr yn ochr â gweithgareddau chwaraeon. Nodwyd bod trefniadau codio presennol wedi rhoi mwy o ystyriaeth i weithgareddau chwaraeon.
- Cafwyd adborth cadarnhaol y byddai categoreiddio cliriach yn cryfhau prosesau diogelu a goruchwylio, yn enwedig os yw perfformiadau'n digwydd yn ystod y diwrnod ysgol neu yn cynnwys sefydliadau allanol, trwy atgyfnerthu disgwyliadau yn ymwneud â chymeradwyo a goruchwylio.
- Nododd rhai ymatebwyr y byddai gwahaniaethau cliriach yn helpu ysgolion i gyfleu penderfyniadau i rieni yn fwy hyderus, gan leihau amwysedd ynglŷn â phryd mae absenoldebau sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn cael eu hawdurdodi a sut maent yn cael eu cofnodi.

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Nac ydyn’ neu ‘Ddim yn siŵr’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder cyffredin oedd y perygl y byddai rhannu’r cod P yn ychwanegu cymhlethdod diangen, yn enwedig o ystyried bod absenoldebau sy’n gysylltiedig â pherfformiad yn gymharol brin mewn rhai lleoliadau a’u bod yn cael eu deall yn dda eisoes ar lefel leol.
- Roedd sawl ymatebydd yn cwestiynu’r gwahaniaeth rhwng perfformiadau am dâl a pherfformiadau di-dâl, gan fynegi pryder y gallai codio’r perfformiadau hyn mewn ffordd wahanol ymddangos yn fympwyol ac efallai na fyddai’n adlewyrchu gwerth addysgol neu ddatblygiadol y gweithgaredd.
- Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo y byddai rhannu’r cod yn cynyddu’r baich gweinyddol a’r perygl o ddefnyddio’r cod anghywir, yn enwedig ar gyfer staff sy’n gyfrifol am gwblhau’r gofrestr ac nad ydynt bob amser yn cael mynediad at wybodaeth fanwl am natur y perfformiad.
- Mynegwyd pryderon am ddehongliad anghyson, yn enwedig os yw gweithgareddau yn cymylu’r ffiniau rhwng chwaraeon a pherfformiad, neu os oes trefniadau paratoi, ymarfer, amser teithio, neu drwyddedu yn gysylltiedig â’r gweithgaredd.
- Roedd nifer o ymatebion yn galw am ddiffiniadau cliriach ac enghreifftiau ymarferol. Heb yr elfennau hyn, roeddent yn poeni y gallai rhannu’r cod achosi dryswch yn hytrach na gwella eglurder neu gysondeb yn ymarferol.

**Cwestiwn 5**

**2.2.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer codau P1 a P2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 5: Ymatebion i Gwestiwn 5**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 36 | 63.16% |
| Nac ydy | 10 | 17.54% |
| Ddim yn siŵr | 11 | 19.30% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod yr wybodaeth ychwanegol ar gyfer P1 a P2 yn egluro'r gwahaniaeth rhwng gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau perfformio, gan helpu ysgolion i gymhwyso'r cod mwyaf priodol gyda mwy o hyder.
- Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod cymhwystra a disgwyliadau wedi'u mynegi'n gliriach, gan gynnwys y pwyslais ar gymeradwyaeth, goruchwyliaeth, a'r amgylchiadau lle gall disgyblion fod yn absennol ar gyfer y gweithgareddau hyn yn ystod y diwrnod ysgol.
- Nododd sawl cyfrannwr fod y manylion ychwanegol yn cefnogi proses codio presenoldeb fwy cyson a phroses y gellid ei hamddiffyn yn fwy cadarn, eu bod yn lleihau amwysedd ac yn cryfhau ansawdd y data a gesglir ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chenedlaethol.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y canllawiau yn helpu i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng y celfyddydau perfformio a chwaraeon, gan fynd i'r afael â chanfyddiad bod gweithgareddau chwaraeon yn y gorffennol wedi elwa ar arferion codio cliriach neu fwy sefydledig.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai canllawiau cliriach yn helpu prosesau cyfathrebu â rhieni a sefydliadau allanol, gan ddarparu paramedrau cenedlaethol mwy cadarn y gallai ysgolion gyfeirio atynt wrth asesu ceisiadau am absenoldeb.

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Nac ydy’ neu ‘Ddim yn siŵr’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd un pryder cyffredin yn ymwneud ag amwysedd parhaus ynglŷn â chymhwysiad ymarferol P1 a P2, yn enwedig os yw gweithgareddau yn cynnwys elfennau o chwaraeon a pherfformiad, neu os yw amser paratoi, ymarfer neu deithio yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol.
- Roedd sawl ymatebydd yn cwestiynu’r gwahaniaeth rhwng perfformiadau am dâl a pherfformiadau di-dâl, gan fynegi pryder y gallai’r gwahaniaeth hwn fod yn anodd i ysgolion ei wirio yn ymarferol ac efallai na fyddai’n adlewyrchu gwerth addysgol neu ddatblygiadol y gweithgaredd.
- Er gwaethaf gwybodaeth ychwanegol, roedd rhai cyfranwyr yn teimlo nad oedd y canllawiau yn cynnwys digon o enghreifftiau ymarferol, yn enwedig ar gyfer senarios llai nodweddiadol fel ymarferion, gweithgareddau cymysg, neu ddigwyddiadau a gynhelir yn rhannol y tu allan i oriau ysgol arferol.
- Roedd pryderon y gallai cymhwyso’r canllawiau diwygiedig gynyddu’r baich gweinyddol neu arwain at ddehongliad anghyson, yn enwedig pan fo ysgolion yn dibynnu ar wybodaeth rhieni neu ddarparwyr allanol i bennu’r cod cywir.
- Heb enghreifftiau cenedlaethol mwy eglur, awgrymodd nifer o ymatebwyr fod perygl y bydd y newidiadau yn ailadrodd anghysondebau presennol yn hytrach na’u datrys yn llawn.

**Cwestiwn 6**

**2.3 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod V yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 6: Ymatebion i Gwestiwn 6**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 38 | 69.09% |
| Nac ydy | 8 | 14.55% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.36% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r esboniad cliriach o'r amgylchiadau pan fydd angen defnyddio Cod V, yn enwedig y pwyslais ar sicrhau bod ymweliadau yn addysgol eu natur, eu bod yn cael eu cymeradwyo gan yr ysgol, a'u bod yn cael eu goruchwylio'n briodol. Nodwyd bod hyn yn cryfhau gwaith diogelu ac yn atgyfnerthu cyfrifoldeb ysgolion am oruchwylio.
- Nododd ymatebwyr fod y manylion ychwanegol yn helpu i wahaniaethu Cod V yn gliriach oddi wrth godau presenoldeb eraill, gan leihau amwysedd blaenorol ynglŷn ag a ddylid cofnodi rhai gweithgareddau oddi ar y safle fel gweithgaredd addysgol cymeradwy neu absenoldeb.
- Nododd sawl cyfrannwr y byddai canllawiau cliriach yn cefnogi cymhwysiad mwy cyson ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig mewn achosion lle mae ymweliadau yn cael eu trefnu gan ddarparwyr allanol ond yn cael eu cymeradwyo a'u goruchwylio gan yr ysgol.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod yr wybodaeth ddiwygiedig yn gwella cywirdeb data, gan arwain at ddadansoddiad gwell o gyfranogiad mewn ymweliadau addysgol ar lefel ysgol, awdurdod lleol a chenedlaethol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr eglurhad yn cefnogi barn broffesiynol a hyder ymhlith staff, yn enwedig y rhai sy'n gyfrifol am gofnodi presenoldeb nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â threfnu ymweliadau bob amser.

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Nac ydy’ neu ‘Ddim yn siŵr’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Er bod nifer o ymatebwyr yn teimlo bod gwybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol, roeddent o’r farn ei bod yn adlewyrchu arferion presennol i raddau helaeth ac nad oedd yn cynyddu eglurder yn sylweddol ar gyfer ysgolion sydd eisoes yn cymhwyso’r cod yn briodol.
- Codwyd pryderon am ddehongliad ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â lefel a natur yr oruchwyliaeth sydd ei hangen, ac a oes rhaid i oruchwyliaeth gael ei darparu bob amser gan staff ysgol yn hytrach na sefydliadau allanol.
- Cyfeiriodd rhai cyfranwyr at amwysedd gweddilliol wrth wahaniaethu rhwng Cod V a chodau eraill (fel Cod B neu weithgareddau sy’n gysylltiedig â’r cwricwlwm), yn enwedig pan fydd ymweliadau yn cynnwys dibenion addysgol a chyfoethogi cymysg.
- Mynegwyd pryderon y gallai fod yn gryn her i ysgolion gymhwyso’r canllawiau yn gyson, yn enwedig os yw ymweliadau yn rheolaidd, yn fyrhoedlog, neu’n cynnwys presenoldeb am ran o’r dydd.
- Awgrymodd nifer fach o ymatebion y byddai enghreifftiau cliriach yn fuddiol, yn enwedig ar gyfer senarios llai nodweddiadol, er mwyn lleihau’r perygl o ddehongli anghyson ar draws lleoliadau.

**Cwestiwn 7**

**2.4 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod W yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 7: Ymatebion i Gwestiwn 7**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 39 | 69.64% |
| Nac ydy | 9 | 16.07% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 14.29% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Croesawodd llawer o ymatebwyr y diffiniad cliriach o God W, yn enwedig yr eglurhad ei fod yn berthnasol i brofiad gwaith statudol yn y ddwy flynedd olaf o addysg orfodol, a bod yr ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am bresenoldeb a diogelu.
- Nododd ymatebwyr fod yr wybodaeth ychwanegol yn helpu i wahaniaethu rhwng profiad gwaith a mathau eraill o ddarpariaeth amgen neu ddarpariaeth oddi ar y safle, gan leihau dryswch blaenorol lle'r oedd Cod B neu godau eraill wedi'u cymhwyso yn anghyson.
- Nododd sawl cyfrannwr y byddai disgwyliadau cliriach mewn perthynas â monitro a goruchwylio yn cryfhau diogelu ac yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i oruchwylio presenoldeb disgyblion pan fyddant ar leoliad.
- Cafwyd adborth cadarnhaol y byddai'r canllawiau diwygiedig yn helpu i gasglu a dadansoddi data mwy cywir, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol wrth olrhain cyfranogiad mewn lleoliadau profiad gwaith.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y newidiadau yn adlewyrchu arferion presennol i raddau helaeth ac nad oeddent yn gwella eglurder yn sylweddol, yn enwedig mewn lleoliadau lle mae profiad gwaith yn brin.
- Codwyd pryderon am weithredu ymarferol, gan gynnwys pa mor aml y disgwylir i ysgolion wirio presenoldeb mewn lleoliadau a sut y dylid cofnodi presenoldeb am ran o'r dydd.
- Roedd nifer o gyfranwyr yn teimlo y byddai enghreifftiau ychwanegol yn ddefnyddiol, yn benodol er mwyn egluro senarios ar y ffin neu drefniadau darpariaeth gymysg.

## 2. Absenoldeb awdurdodedig

**Cwestiwn 8**

**3.1 Ydych chi’n cytuno â’r penderfyniad i rannu’r cod C?**

**Tabl 8: Ymatebion i Gwestiwn 8**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydyn | 40 | 68.97% |
| Nac ydyn | 8 | 13.79% |
| Ddim yn siŵr | 10 | 17.24% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 58**

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Ydyn’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Cytunodd llawer o ymatebwyr y byddai rhannu’r cod C yn darparu mwy o dryloywder a gwerth dadansoddol, gan alluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall graddfa a natur trefniadau presenoldeb gwahanol yn well.
- Nododd yr ymatebwyr fod rhannu’r cod yn cefnogi gwaith monitro a diogelu wedi’i dargedu, yn enwedig ar gyfer disgyblion sy’n dilyn amserlenni llai, trefniadau addysg hyblyg, neu becynnau pwrpasol eraill.
- Roedd sawl cyfrannwr yn teimlo y byddai’r newid yn hwyluso dadansoddiad data mwy ystyrlon, gan gefnogi ymyrraeth gynnar a dealltwriaeth ar lefel system o batrymau absenoldeb neu bresenoldeb rhannol.

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Nac ydyn’ neu ‘Ddim yn siŵr’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder cyffredin oedd y ffaith bod rhannu’r cod yn arwain at gymhlethdod gormodol, gan gynyddu’r baich gweinyddol ar ysgolion a’r risg o gymhwyso’r cod yn anghyson.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cod C eisoes yn gweithredu’n effeithiol fel cod cyffredinol hyblyg, a bod perygl y gallai rhannu’r cod ymhellach greu dryswch yn hytrach nag eglurder.
- Heb enghreifftiau cenedlaethol eglur, roedd rhai ymatebwyr yn rhybuddio y gallai rhannu’r cod gynyddu amrywiadau lleol yn hytrach na’u lleihau.

**Cwestiwn 9**

**3.1.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 9: Ymatebion i Gwestiwn 9**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 42 | 77.78% |
| Nac ydy | 6 | 11.11% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 11.11% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Croesawodd yr ymatebwyr y diffiniad cliriach o God C1, yn enwedig ei rôl wrth gofnodi absenoldebau awdurdodedig nad ydynt wedi'u cynnwys mewn mannau eraill, gan gefnogi cysondeb yn y penderfyniadau codio.
- Nododd sawl cyfrannwr y byddai canllawiau cliriach yn helpu ysgolion i amddiffyn penderfyniadau presenoldeb, yn enwedig mewn sgyrsiau â rhieni.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod Cod C1 yn helpu i wahaniaethu rhwng absenoldebau awdurdodedig untro neu eithriadol a threfniadau mwy strwythuredig sy'n cael eu cwmpasu gan godau C eraill.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod Cod C1 yn parhau i fod yn rhy eang, gan arwain at y perygl o ddehongliad anghyson a dibyniaeth barhaus ar farn broffesiynol heb baramedrau cenedlaethol digonol.
- Roedd eraill yn cwestiynu a yw Cod C1 yn dyblygu codau presennol, gan gyfyngu ar ei werth ychwanegol.

**Cwestiwn 10**

**3.1.2 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 10: Ymatebion i Gwestiwn 10**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 35 | 63.64% |
| Nac ydy | 8 | 14.55% |
| Ddim yn siŵr | 12 | 21.82% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod Cod C2 yn rhoi mwy o benodolrwydd trwy nodi perfformiadau am dâl ac amgylchiadau tebyg y dylid eu trin yn wahanol i weithgaredd addysgol cymeradwy.
- Nododd sawl cyfrannwr y byddai codio cliriach yn cefnogi monitro a diogelu gwell, yn enwedig os yw disgyblion yn absennol yn ystod y diwrnod ysgol oherwydd ymrwymiadau allanol.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y cod yn cefnogi data cenedlaethol mwy cywir, yn enwedig mewn perthynas â phlant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau trwyddedig.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd un pryder cyffredin yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng perfformiadau am dâl a pherfformiadau di-dâl, gydag ymatebwyr yn cwestiynu a yw'r gwahaniaeth hwn yn ystyrlon neu'n ymarferol.
- Roedd rhai cyfranwyr yn poeni y gallai ysgolion gael trafferth gwirio statws taliadau, gan gynyddu'r baich gweinyddol a'r perygl o ddefnyddio cod anghywir.
- Roedd galwadau am enghreifftiau cliriach, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau sydd ar y ffin rhwng Codau C2 a P2.

**Cwestiwn 11**

**3.1.3 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C3 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 11: Ymatebion i Gwestiwn 11**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 39 | 69.64% |
| Nac ydy | 7 | 12.50% |
| Ddim yn siŵr | 10 | 17.86% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu cod penodol ar gyfer addysg hyblyg, gan nodi y byddai'n cynyddu gwelededd ac atebolrwydd mewn perthynas â'r trefniadau hyn.
- Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai nodi addysg hyblyg mewn ffordd gliriach yn cynorthwyo prosesau goruchwylio diogelu, monitro awdurdodau lleol, a chynllunio ailintegreiddio.
- Roedd sawl cyfrannwr yn teimlo y byddai'r cod yn darparu data gwerthfawr ar lefel system ar gyffredinrwydd a hyd cytundebau addysg hyblyg.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder sylweddol a godwyd oedd y ffaith y gallai cyflwyno cod penodol normaleiddio neu hyrwyddo addysg hyblyg, gan arwain at fwy o alw gan rieni.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod diffyg eglurder yn y canllawiau mewn perthynas â throthwyon priodol, hyd a threfniadau adolygu, a allai arwain at eu cymhwyso yn anghyson.
- Mynegwyd pryderon am effeithiau negyddol posibl ar ddata presenoldeb a phwysau anfwriadol ar ysgolion.

**Cwestiwn 12**

**3.1.4 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C4 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 12: Ymatebion i Gwestiwn 12**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 34 | 61.82% |
| Nac ydy | 13 | 23.64% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 14.55% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Croesawodd yr ymatebwyr y ffaith fod mwy o eglurder mewn perthynas â lleihau amserlenni, gan ystyried y cod fel adnodd pwysig ar gyfer diogelu, monitro a chynllunio ailintegreiddio.
- Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai Cod C4 yn gymorth i nodi risg yn gynnar, gan alluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i herio defnydd hir neu amhriodol.
- Roedd cytundeb eang bod canllawiau cliriach yn cryfhau atebolrwydd a chysondeb ar draws ysgolion.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd y canllawiau yn gosod y disgwyliadau ar gyfer lleihau amserlenni mewn ffordd eglur, yn enwedig mewn perthynas â'u hyd, adolygu'r amserlenni llai a throthwyon i'w defnyddio.
- Heb fesurau diogelu cryfach, codwyd pryderon y gallai'r cod ddilysu neu ymestyn amserlenni llai yn hytrach na chefnogi ailintegreiddio amserol.
- Hefyd, galwodd ymatebwyr am wahaniaethau cliriach rhwng amserlenni llai a darpariaeth arall, a chanllawiau pellach ar eu defnydd mewn achosion yn ymwneud â gorbryder, anghenion meddygol neu ddarpariaeth amgen.

**Cwestiwn 13**

**3.1.5 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C5 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 13: Ymatebion i Gwestiwn 13**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 34 | 61.82% |
| Nac ydy | 13 | 23.64% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 14.55% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod Cod C5 yn darparu eglurder trwy wahaniaethu'n benodol rhwng dysgu o bell a gweithgaredd addysgol cymeradwy, gan fynd i'r afael ag amwysedd blaenorol o ran codio.
- Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod y canllawiau yn atgyfnerthu disgwyliadau diogelu, yn enwedig yr angen am waith monitro ac adolygu clir.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Un o'r prif bryderon oedd y ffaith bod dosbarthu dysgu ar-lein strwythuredig, dan oruchwyliaeth fel absenoldeb awdurdodedig yn methu ag adlewyrchu ymgysylltiad â dysgwyr, yn enwedig yn achos disgyblion agored i niwed.
- Rhybuddiodd ymatebwyr am yr effeithiau negyddol ar ffigurau presenoldeb, a allai ddatgymell ysgolion rhag cynnig darpariaeth hyblyg neu gynhwysol.
- Mynegwyd pryderon am bwysau cynyddol ar lwybrau addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ac addysg ddewisol yn y cartref, yn ogystal â llai o gymhellion ar gyfer cymorth cynnar, tymor byr.

**Cwestiwn 14**

**3.2 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod F yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 14: Ymatebion i Gwestiwn 14**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 33 | 58.93% |
| Nac ydy | 12 | 21.43% |
| Ddim yn siŵr | 11 | 19.64% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Croesawodd llawer o ymatebwyr yr eglurder pellach fod Cod F yn berthnasol i wyliau estynedig y tu hwnt i 10 diwrnod ysgol, gan atgyfnerthu cysondeb ac aliniad â disgwyliadau statudol.
- Nododd ymatebwyr y byddai enghreifftiau cliriach o amgylchiadau eithriadol yn cynorthwyo penaethiaid i wneud penderfyniadau tecach, y gellid eu hamddiffyn yn fwy cadarn.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y canllawiau estynedig yn cryfhau dulliau cyfathrebu â rhieni a'u bod yn herio rhagdybiaethau yn ymwneud â gwyliau yn ystod y tymor.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod perygl y byddai'r canllawiau yn normaleiddio gwyliau estynedig, gan danseilio disgwyliadau presenoldeb o bosibl.
- Mynegwyd pryderon am oddrychedd wrth ddiffinio amgylchiadau eithriadol, a allai arwain at anghysondeb ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Roedd nifer o ymatebion yn galw am fwy o eglurder a pharamedrau llymach, yn enwedig er mwyn cefnogi tegwch ac osgoi anghydfodau.

**Cwestiwn 15**

**3.3 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod H yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 15: Ymatebion i Gwestiwn 15**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 38 | 67.86% |
| Nac ydy | 12 | 21.43% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 10.71% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Croesawodd llawer o ymatebwyr yr esboniad cliriach o God H, yn enwedig y pwyslais ar gytuno ar wyliau teuluol awdurdodedig dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Nodwyd bod hyn yn atgyfnerthu disgwyliadau cenedlaethol mewn perthynas â phresenoldeb.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod cynnwys enghreifftiau yn helpu i gefnogi penderfyniadau penaethiaid, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth gryfach ar gyfer cytuno neu wrthod ceisiadau.
- Nododd sawl cyfrannwr y byddai canllawiau cliriach yn cynorthwyo arferion mwy cyson ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, gan leihau amwysedd a her gan rieni.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod yr eglurhad yn cryfhau hyder a chyfathrebu proffesiynol, yn enwedig wrth esbonio pam na ellir awdurdodi'r rhan fwyaf o geisiadau am wyliau yn ystod y tymor.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai darparu enghreifftiau o amgylchiadau eithriadol annog rhieni i gyflwyno ceisiadau mewn ffordd sy'n fwy tebygol o gael eu cymeradwyo, gan gynyddu'r pwysau ar ysgolion o bosibl.
- Codwyd pryderon am oddrychedd ac anghysondeb, yn enwedig lle gall deongliadau o "amgylchiadau eithriadol" amrywio rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod perygl y byddai'r canllawiau yn normaleiddio absenoldeb yn ystod y tymor, hyd yn oed os mai'r bwriad oedd ei gyfyngu.

**Cwestiwn 16**

**3.4 Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu'r cod I?**

**Tabl 16: Ymatebion i Gwestiwn 16**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydyn | 41 | 70.69% |
| Nac ydyn | 7 | 12.07% |
| Ddim yn siŵr | 10 | 17.24% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 58**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydyn', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r penderfyniad i rannu'r cod I, gan nodi y byddai'n darparu gwybodaeth well am batrymau absenoldeb sy'n gysylltiedig â salwch, yn enwedig ar lefel ysgol ac awdurdod lleol.
- Cyfeiriodd ymatebwyr at werth posibl gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o salwch er mwyn helpu i nodi anghenion yn gynharach, targedu ymyriadau, a sicrhau ymatebion diogelu sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth.
- Roedd sawl cyfrannwr yn teimlo y byddai rhannu'r cod yn gwella ansawdd a dadansoddiad data, yn enwedig mewn perthynas â deall tueddiadau yn dilyn pandemig COVID19.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydyn' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder cyffredin a nodwyd yw'r ffaith bod rhannu salwch yn gategorïau corfforol a heb fod yn rhai corfforol yn anodd ac yn oddrychol, yn enwedig os oes symptomau yn gorgyffwrdd.
- Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am beryglon yn ymwneud â chyfrinachedd a stigma, yn enwedig os daw rhesymau iechyd meddwl neu iechyd emosiynol yn amlwg i grŵp ehangach o staff.
- Mynegwyd pryderon y gallai'r newid gynyddu'r baich gweinyddol, gan gynnwys pwysau i ofyn am dystiolaeth feddygol pan nad yw'n briodol gwneud hynny neu nad yw'r dystiolaeth ar gael.

**Cwestiwn 17**

**3.4.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod I1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 17: Ymatebion i Gwestiwn 17**

| **Categori ymateb** | **Cyfanswm yr ymatebion** | **Canran yr ymatebion** |
|---|---|---|
| Ydy | 40 | 71.43% |
| Nac ydy | 7 | 12.50% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.07% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu'r disgrifiad mwy eglur a'r enghreifftiau o salwch corfforol, gan nodi y byddai hyn yn cefnogi defnydd mwy cyson a chymesur o'r cod.
- Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod y canllawiau ychwanegol yn helpu i egluro'r achlysuron pan fyddai gan ysgolion reswm da dros gwestiynu absenoldeb neu ofyn am ragor o wybodaeth, gan gefnogi barn broffesiynol.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y canllawiau yn atgyfnerthu disgwyliadau diogelu heb orfod gofyn am dystiolaeth feddygol ddiangen.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd y canllawiau yn newid arferion presennol yn sylweddol, yn enwedig mewn achosion lle mae ysgolion eisoes yn rheoli absenoldebau salwch yn effeithiol.
- Codwyd pryderon am achosion cymhleth, lle gall symptomau corfforol ddeillio o achosion iechyd emosiynol neu iechyd meddwl sy'n bodoli'n barod.

**Cwestiwn 18**

**3.4.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod I2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 18: Ymatebion i Gwestiwn 18**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 37 | 66.07% |
| Nac ydy | 10 | 17.86% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.07% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Nododd llawer o ymatebwyr eu bod yn croesawu'r sylw a roddir i absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, gan nodi bod hwn yn gyfle i wella dealltwriaeth, prosesau monitro a chymorth ar gyfer disgyblion sy'n cael eu heffeithio.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cod gynorthwyo gwaith cynllunio sy'n seiliedig ar ddata, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau llesiant, atgyfeiriadau addysg heblaw yn yr ysgol, a gwaith amlasiantaethol.
- Nododd rhai cyfranwyr y gallai canllawiau cliriach helpu ysgolion i nodi patrymau absenoldeb hirdymor ac uwchgyfeirio pryderon yn fwy priodol.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Un o'r prif bryderon a godwyd oedd y ffaith ei bod yn anodd dangos tystiolaeth o salwch nad yw'n gorfforol na'i ddiffinio, yn enwedig mewn perthynas ag achosion lle nad yw'r diagnosis wedi'i gadarnhau'n ffurfiol.
- Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch cyfrinachedd, stigma, a labelu, yn enwedig os daw gwybodaeth sensitif i'r amlwg yn eang trwy gofnodion presenoldeb.
- Mynegwyd pryderon y gallai'r cod normaleiddio absenoldeb hirdymor oni chyflwynir trothwyon uwchgyfeirio clir neu ddisgwyliadau adolygu.

**Cwestiwn 19**

**3.5 Ydych chi'n cytuno â'r newid arfaethedig i'r ystyr ystadegol ar gyfer y cod J1 o 'weithgaredd addysgol cymeradwy' i 'absenoldeb awdurdodedig'?**

**Tabl 19: Ymatebion i Gwestiwn 19**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydyn | 26 | 46.43% |
| Nac ydyn | 21 | 37.50% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.07% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydyn', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd yr ymatebwyr a gytunodd yn teimlo bod y newid yn gwella eglurder a chysondeb, gan sicrhau aliniad agosach rhwng mynychu cyfweliad ac absenoldeb awdurdodedig yn hytrach na gweithgaredd addysgol cymeradwy.
- Nododd rhai cyfranwyr y byddai categoreiddio cliriach yn gwella tryloywder data, yn enwedig mewn perthynas ag absenoldebau yn ystod cyfnodau arholiadau pwysig.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder mawr a gododd yn aml oedd y ffaith bod mynychu cyfweliadau, yn enwedig ar gyfer addysg neu hyfforddiant ôl-16, yn weithgaredd addysgol dilys a gwerthfawr na ddylid ei drin fel absenoldeb.
- Rhybuddiodd llawer o ymatebwyr y gallai'r newid atal disgyblion rhag mynychu cyfweliadau, gan arwain at y posibilrwydd o danseilio cynnydd a chyrchfannau cadarnhaol.
- Mynegwyd pryderon am degwch, yn enwedig mewn achosion lle caiff cyfweliadau eu cynnal yn ystod oriau ysgol heb unrhyw fai ar y disgybl.

**Cwestiwn 20**

**3.5.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod C1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 20: Ymatebion i Gwestiwn 20**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 27 | 51.92% |
| Nac ydy | 12 | 23.08% |
| Ddim yn siŵr | 13 | 25.00% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 52**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr wybodaeth ychwanegol yn darparu paramedrau cliriach ynglŷn â phryd a sut i gymhwyso Cod J1, gan gefnogi defnydd mwy cyson.
- Roedd cydnabyddiaeth y gallai canllawiau cliriach helpu ysgolion i gyfyngu ar ddefnydd amhriodol neu ormodol o'r cod.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Nododd llawer o ymatebwyr eu bod yn gwrthwynebu'r syniad o gofnodi cyfweliadau fel absenoldeb, hyd yn oed gyda chanllawiau ychwanegol.
- Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo nad yw'r eglurhad yn mynd i'r afael â phryderon craidd, yn enwedig o ran cynnydd disgyblion a thegwch.

**Cwestiwn 21**

**3.6 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod M yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 21: Ymatebion i Gwestiwn 21**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 40 | 71.43% |
| Nac ydy | 9 | 16.07% |
| Ddim yn siŵr | 7 | 12.50% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu'r gwahaniaeth mwy eglur rhwng apwyntiadau sy'n gofyn am absenoldeb a'r rhai lle mae disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol, gan gefnogi defnydd cyson o'r Codau M ac L.
- Nodwyd bod y canllawiau yn atgyfnerthu disgwyliadau presenoldeb rhesymol, ac yn cydnabod y ffaith bod rhai apwyntiadau yn ystod y dydd yn anochel.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r canllawiau gosbi disgyblion yn annheg, yn enwedig mewn achosion lle mae amser yr apwyntiad y tu allan i reolaeth y rhieni.
- Codwyd pryderon am ddehongli anghyson, yn enwedig mewn achosion lle mae disgyblion yn bresennol am ran o sesiwn.

**Cwestiwn 22**

**3.7 A yw’r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod S yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 22: Ymatebion i Gwestiwn 22**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 30 | 55.56% |
| Nac ydy | 11 | 20.37% |
| Ddim yn siŵr | 13 | 24.07% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Ydy’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu’r terfynau a’r disgwyliadau mwy eglur mewn perthynas ag absenoldeb astudio, yn enwedig y pwyslais ar ddefnydd rheoledig a chymesur.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau yn cefnogi tegwch a mesurau diogelu, gan sicrhau nad yw disgyblion sy’n cael budd o strwythur dan anfantais.

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Nac ydy’ neu ‘Ddim yn siŵr’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder cyffredin a nodwyd oedd y diffyg cysondeb â chanllawiau eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran y nifer o ddiwrnodau o absenoldeb astudio a ganiateir.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cyfyngiadau yn effeithio ar hyblygrwydd, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy’n astudio’n effeithiol gartref.

**Cwestiwn 23**

**3.8 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod E yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 23: Ymatebion i Gwestiwn 23**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 38 | 69.09% |
| Nac ydy | 9 | 16.36% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 14.55% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu aliniad mwy eglur rhwng canllawiau ar bresenoldeb a gwaharddiadau, yn enwedig o ran cyfrifoldeb am addysg a diogelu.
- Nododd rhai cyfranwyr fod yr eglurhad yn helpu i sicrhau cysondeb gwell yn ystod cyfnodau gwahardd, gan gynnwys trefniadau darpariaeth amgen.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau yn ychwanegu cymhlethdod heb fudd digonol, yn enwedig mewn achosion lle mae prosesau gwahardd eisoes wedi'u sefydlu.

**Cwestiwn 24**

**3.9 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod R yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 24: Ymatebion i Gwestiwn 24**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 37 | 66.07% |
| Nac ydy | 10 | 17.86% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.07% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r enghreifftiau cliriach a'r cadarnhad o'r newydd bod angen rhoi lle rhesymol i ddefodau crefyddol, gan gefnogi cynhwysiant a chysondeb.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r canllawiau yn helpu ysgolion i wneud penderfyniadau teg a rhai y gellid eu hamddiffyn, yn enwedig mewn cymunedau amrywiol.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Nododd rhai cyfranwyr fod amwysedd o hyd ynglŷn â pha ddyddiau sy'n gymwys, gan ofyn am restrau wedi'u diweddaru neu eu cyhoeddi'n flynyddol.
- Codwyd pryderon am gymhwysiad anghyson ar draws ysgolion, yn enwedig lle mae cadw at ddefodau yn ymestyn y tu hwnt i un diwrnod.

**Cwestiwn 25**

**3.10 A yw’r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod T yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 25: Ymatebion i Gwestiwn 25**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 35 | 64.81% |
| Nac ydy | 7 | 12.96% |
| Ddim yn siŵr | 12 | 22.22% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Ydy’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu canllawiau cliriach sy’n nodi amgylchiadau lle nad oes darpariaeth amgen yn cael ei gwneud, gan nodi bod hyn yn gwella tryloywder a chysondeb wrth gofnodi presenoldeb sy’n gysylltiedig â gwaharddiadau.
- Roedd sawl cyfrannwr yn teimlo bod yr eglurhad yn cryfhau diogelu ac atebolrwydd, trwy wneud cyfrifoldebau’n gliriach yn ystod cyfnodau gwahardd.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y canllawiau yn alinio codio presenoldeb yn fwy agos â’r ddeddfwriaeth ar wahardd a dyletswyddau statudol, gan wella cydlyniad ar draws meysydd polisi.

**Ymhlith y rhai a atebodd ‘Nac ydy’ neu ‘Ddim yn siŵr’, dyma’r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr eglurhad yn ychwanegu cymhlethdod heb wneud llawer o newid i arferion presennol mewn perthynas â gwahardd.
- Cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon y gallai fod yn anodd cymhwyso’r gwahaniaeth yn gyson mewn sefyllfaoedd gwahardd byr neu sefyllfaoedd sy’n newid yn gyflym.

## 3. Absenoldeb anawdurdodedig

**Cwestiwn 26**

**4.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod N yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 26: Ymatebion i Gwestiwn 26**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 40 | 70.18% |
| Nac ydy | 10 | 17.54% |
| Ddim yn siŵr | 7 | 12.28% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r disgwyliad mwy eglur y dylai'r Cod N fod yn un dros dro a chael ei ddatrys o fewn pum diwrnod ysgol, gan atgyfnerthu ymateb ar y diwrnod cyntaf ac arferion diogelu.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau yn cefnogi trafodaeth ddilynol fwy amserol gyda rhieni, gan leihau'r perygl y gallai arwain at absenoldeb anesboniadwy hirdymor.
- Nododd sawl cyfrannwr y byddai terfynau amser cliriach yn gwella cywirdeb y data, gan sicrhau nad yw codau N heb eu datrys yn ystumio cofnodion presenoldeb.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Codwyd pryderon am gapasiti ymarferol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd mawr, i ddatrys pob absenoldeb o fewn yr amserlen benodedig.
- Cwestiynodd rhai ymatebwyr a oes modd cysylltu â rhieni yn ddigon cyflym bob tro, gan awgrymu y gallai'r disgwyliad fod yn afrealistig mewn rhai amgylchiadau.

**Cwestiwn 27**

**4.2 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod O yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 27: Ymatebion i Gwestiwn 27**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 37 | 66.07% |
| Nac ydy | 7 | 12.50% |
| Ddim yn siŵr | 12 | 21.43% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu eglurder ynghylch yr amgylchiadau pan fydd angen nodi bod absenoldeb yn un anawdurdodedig, gan helpu i wneud penderfyniadau cyson, y gellir eu hamddiffyn.
- Nododd sawl cyfrannwr fod canllawiau cliriach yn cryfhau prosesau herio presenoldeb ac yn helpu ysgolion i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y canllawiau yn atgyfnerthu tegwch a chymesuredd, yn ogystal â chynnal disgwyliadau uchel.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad yw'r canllawiau yn cyfleu'n llawn y sefyllfa gymhleth sy'n wynebu teuluoedd, a bod perygl i'w cymhwyso mewn ffordd sy'n rhy gaeth.
- Cododd nifer fach o ymatebwyr bryderon am lefelau uwch o anghydfod gyda rhieni, yn enwedig mewn achosion lle mae'r rhesymau dros yr absenoldeb yn cael eu herio.

**Cwestiwn 28**

**4.3 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod G yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 28: Ymatebion i Gwestiwn 28**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 38 | 69.09% |
| Nac ydy | 9 | 16.36% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 14.55% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu cadarnhad cliriach y dylid cofnodi gwyliau anawdurdodedig yn gyson o dan God G, gan atgyfnerthu disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer presenoldeb.
- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod yr enghreifftiau ychwanegol yn helpu ysgolion i gyfiawnhau eu penderfyniadau a'u bod yn lleihau amwysedd pan fydd cyfanswm y gwyliau yn fwy na'r terfynau y cytunwyd arnynt.
- Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at yr eglurder gwell ynghylch yr adegau pan na ddylid defnyddio Cod G, gan gefnogi cysondeb a thegwch.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Codwyd pryderon am orgyffwrdd a dryswch rhwng Codau G, H, ac F, er gwaethaf canllawiau ychwanegol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai enghraifft gam wrth gam yn fanteisiol.

**Cwestiwn 29**

**4.4 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod U yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 29: Ymatebion i Gwestiwn 29**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 40 | 72.73% |
| Nac ydy | 7 | 12.73% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 14.55% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu'r canllaw sy'n cadarnhau bod angen cofnodi bod disgybl yn absennol os yw'n cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau, gan gefnogi cysondeb a diogelu.
- Nododd llawer o ymatebwyr fod aliniad cliriach â'r rheol 30 munud yn lleihau amrywiad ac amwysedd lleol.
- Roedd sawl cyfrannwr yn teimlo bod y canllawiau yn cryfhau ymateb ar y diwrnod cyntaf ac atebolrwydd.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Cododd rhai ymatebwyr bryderon y gallai'r trothwy gael effaith anghymesur ar ddisgyblion sy'n wynebu heriau cludiant neu ofal.
- Hefyd, gofynnodd ymatebwyr am fwy o hyblygrwydd neu ystyriaeth fwy eglur mewn amgylchiadau eithriadol.

## 5. Dim rhaid bod yn bresennol

**Cwestiwn 30**

**5.1 Ydych chi'n cytuno â'r newid i'r ystyr ystadegol ar gyfer cod D o 'weithgaredd addysgol cymeradwy' i 'dim rhaid bod yn bresennol'?**

**Tabl 30: Ymatebion i Gwestiwn 30**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydyn | 43 | 75.44% |
| Nac ydyn | 4 | 7.02% |
| Ddim yn siŵr | 10 | 17.54% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 57**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydyn', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Cafwyd croeso pendant gan ymatebwyr i'r newid i'r ystyr ystadegol ar gyfer 'dim rhaid bod yn bresennol', yn enwedig ar gyfer disgyblion â chofrestriad deuol a darpariaeth amgen.
- Roedd llawer o'r farn bod y newid hwn yn gwella tegwch a chywirdeb trwy sicrhau nad yw disgyblion ac ysgolion yn cael eu cosbi am sesiynau nad oes disgwyl iddynt fod yn bresennol ar eu cyfer.
- Nodwyd bod y canllawiau yn cryfhau eglurder diogelu ac uniondeb y data.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydyn' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am olrhain gwelededd, gan rybuddio y gallai disgyblion droi'n "anweledig" heb drefniadau cadarn ar gyfer rhannu gwybodaeth.
- Cododd nifer fach o ymatebwyr gwestiynau am gyfrifoldeb a goruchwyliaeth ar draws lleoliadau.

**Cwestiwn 31**

**5.1.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod D yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 31: Ymatebion i Gwestiwn 31**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 39 | 69.64% |
| Nac ydy | 5 | 8.93% |
| Ddim yn siŵr | 12 | 21.43% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod yr wybodaeth ychwanegol yn egluro sut a phryd i ddefnyddio Cod D, gan gefnogi cymhwysiad cyson.
- Cafwyd adborth cadarnhaol bod y canllawiau yn gwella prosesau cyfathrebu rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, a darparwyr amgen.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo nad yw'r eglurhad yn mynd yn ddigon pell wrth amlinellu cyfrifoldebau diogelu.

**Cwestiwn 32**

**5.2 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod X yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 32: Ymatebion i Gwestiwn 32**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 41 | 75.93% |
| Nac ydy | 7 | 12.96% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 11.11% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu diffiniad cliriach o achosion pan nad yw disgyblion ar y gofrestr ac nad oes angen iddynt fod yn bresennol, gan leihau amwysedd.
- Nodwyd bod y canllawiau yn helpu i gadw cofrestrau cywir a rheoli cofrestrau yn gyfreithlon.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Cyfeiriodd nifer fach o ymatebwyr at sefyllfaoedd aneglur, yn enwedig disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol yn raddol, ac oedi cyn derbyn disgyblion.

**Cwestiwn 33**

**5.3 Ydych chi'n cytuno â'r penderfyniad i rannu'r cod Y?**

**Tabl 33: Ymatebion i Gwestiwn 33**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydyn | 38 | 69.09% |
| Nac ydyn | 8 | 14.55% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.36% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydyn', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai rhannu'r cod Y yn gwella dealltwriaeth o'r rhesymau am gau ysgol, gan gefnogi dadansoddiad ac atebolrwydd mwy cywir.
- Nododd sawl cyfrannwr fanteision posibl ar gyfer data ar lefel system, yn enwedig mewn senarios o argyfwng neu o aflonyddu.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydyn' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Un pryder cyffredin oedd y ffaith bod rhannu'r cod yn ychwanegu cymhlethdod heb greu llawer o werth gweithredol, o ystyried y defnydd prin o godau cau.

**Cwestiwn 34**

**5.3.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y1 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 34: Ymatebion i Gwestiwn 34**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 34 | 62.96% |
| Nac ydy | 11 | 20.37% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.67% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r broses gliriach o nodi unrhyw darfu cysylltiedig â chludiant, sy'n helpu i gofnodi'n deg absenoldeb na ellir ei osgoi.
- Roedd rhai yn teimlo y byddai hyn yn gwella tegwch ar gyfer dysgwyr gwledig a dysgwyr sy'n dibynnu ar gludiant.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Codwyd pryderon yn ymwneud ag eglurder diffiniadau, yn enwedig wrth wahaniaethu rhwng cludiant a ddarperir gan yr ysgol a materion cludiant eraill.

**Cwestiwn 35**

**5.3.1 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y2 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 35: Ymatebion i Gwestiwn 35**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 38 | 71.70% |
| Nac ydy | 7 | 13.21% |
| Ddim yn siŵr | 8 | 15.09% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 53**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod rhannu'r cod yn helpu i wahaniaethu rhwng digwyddiadau tarfu unigol ac eang.
- Cyfeiriodd sawl cyfrannwr at y ffaith fod adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol wedi gwella.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu mantais ymarferol rhannu Y1 ac Y2, o ystyried y gorgyffwrdd mewn sefyllfaoedd byd go iawn.

**Cwestiwn 36**

**5.3.3 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y3 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 36: Ymatebion i Gwestiwn 36**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 42 | 77.78% |
| Nac ydy | 6 | 11.11% |
| Ddim yn siŵr | 6 | 11.11% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu'r gallu i wahaniaethu rhwng cau ysgol yn rhannol, sy'n gwella cywirdeb dadansoddiadau o bresenoldeb.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai yn teimlo nad yw'r gwahaniaeth rhwng cau ysgol yn rhannol a chau ysgol yn llawn yn ychwanegu llawer o werth gweithredol.

**Cwestiwn 37**

**5.3.4 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y4 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 37: Ymatebion i Gwestiwn 37**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 38 | 70.37% |
| Nac ydy | 6 | 11.11% |
| Ddim yn siŵr | 10 | 18.52% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu cadarnhad clir o'r adegau pan fydd codau ar gyfer cau ysgol yn llawn yn berthnasol, sy'n cynorthwyo arfer cenedlaethol cyson.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd nifer fach yn teimlo bod y canllawiau yn ychwanegu elfen o ddyblygu, gan fod prosesau cau ysgolion eisoes yn cael eu deall yn dda ar lefel leol.

**Cwestiwn 38**

**5.3.5 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Y5 yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 38: Ymatebion i Gwestiwn 38**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 37 | 68.52% |
| Nac ydy | 8 | 14.81% |
| Ddim yn siŵr | 9 | 16.67% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 54**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod Cod Y5 yn darparu elfen o ddiogelu at y dyfodol, yn enwedig mewn senarios megis pandemig neu argyfwng.
- Roedd sawl cyfrannwr yn croesawu cydnabyddiaeth benodol o darfu anghyffredin, system gyfan.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r cod yn cael ei ddefnyddio yn aml, gan gyfyngu ar ei werth ymarferol.

**Cwestiwn 39**

**5.4 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod Z yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 39: Ymatebion i Gwestiwn 39**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymatebion | Canran yr ymatebion |
|---|---|---|
| Ydy | 42 | 76.36% |
| Nac ydy | 8 | 14.55% |
| Ddim yn siŵr | 5 | 9.09% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn croesawu eglurhad o'r adegau pan fyddai Cod Z yn berthnasol, gan nodi cywirdeb technegol gwell.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

Dywedodd nifer o ymatebwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r cod, gan awgrymu bod ganddo berthnasedd ymarferol cyfyngedig

**Cwestiwn 40**

**5.5 A yw'r wybodaeth ychwanegol ar gyfer cod # yn rhoi mwy o eglurder?**

**Tabl 40: Ymatebion i Gwestiwn 40**

| Categori ymateb | Cyfanswm yr ymateb | Canran yr ymateb |
|---|---|---|
| Ydy | 41 | 74.55% |
| Nac ydy | 7 | 12.73% |
| Ddim yn siŵr | 7 | 12.73% |

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 55**

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Ydy', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod esboniad cliriach yn helpu i wneud y fframwaith yn fwy cyflawn o safbwynt technegol.

**Ymhlith y rhai a atebodd 'Nac ydy' neu 'Ddim yn siŵr', dyma'r themâu a godwyd amlaf:**

- Mynegodd rhai cyfranwyr ansicrwydd ynglŷn â phryd a pham y byddai'r cod yn cael ei ddefnyddio, gan awgrymu bod angen enghreifftiau cliriach.

**Cwestiwn 41**

**6 Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y codau presenoldeb diwygiedig ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

**Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 59**

Roedd ymatebion i Gwestiwn 41 yn dangos consensws cadarn bod y codau presenoldeb diwygiedig yn annhebygol o gael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr o’r farn bod y newidiadau yn rhai technegol a gweinyddol sy’n canolbwyntio ar gofnodi presenoldeb yn hytrach na defnydd iaith.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a fynegodd farn yn teimlo nad yw’r cynigion yn hyrwyddo nac yn atal cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, cyn belled â bod y cynigion yn cael eu gweithredu’n gyson mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Dywedodd sawl ymatebydd yn benodol nad ydynt yn rhagweld unrhyw effaith ar y Gymraeg.

Nododd nifer llai o ymatebwyr y byddai unrhyw effeithiau posibl yn anuniongyrchol, gan ddibynnu i raddau helaeth ar sut y mae’r canllawiau a’r deunyddiau ategol yn cael eu gweithredu. Yn benodol, codwyd pryderon am gywirdeb ac ansawdd fersiynau Cymraeg o’r canllawiau, gyda rhai ymatebwyr yn cyfeirio at wallau neu anghysondebau yn ystod y broses ymgynghori. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hyn y gallai cyfieithu o ansawdd gwael arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol yn ymarferol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn awgrymu nad yw’r newidiadau i’r codau presenoldeb ynddynt eu hunain yn arwyddocaol yn ieithyddol, ond y byddai ansawdd y broses weithredu yn allweddol i osgoi effeithiau anfwriadol.

**Cwestiwn 42**

**7 Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:**

- **sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 58**

Roedd yr ymatebion i Gwestiwn 42 yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredu yn hytrach na chynnwys polisi. Roedd yr ymatebwyr a nododd gyfleoedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl ganllawiau, enghreifftiau, a phrosesau cyfathrebu yn gwbl ddwyieithog, yn gywir, ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Awgrymodd sawl ymatebydd y gallai darparu enghreifftiau, templedi a deunyddiau hyfforddi Cymraeg helpu i hyrwyddo hyder yn y defnydd o'r Gymraeg mewn prosesau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb, yn enwedig ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a rhieni.

Hefyd, roedd rhai ymatebwyr wedi nodi pwysigrwydd sicrhau cysondeb wrth ddefnyddio terminoleg mewn canllawiau addysg Gymraeg, gan nodi y gallai geiriad anghyson neu aneglur danseilio hyder ac arwain at ddefnydd anghyson.

Fodd bynnag, dywedodd llawer o ymatebwyr unwaith eto nad ydynt yn credu y bydd y diwygiadau i'r codau presenoldeb yn cael unrhyw effaith ieithyddol gynhenid. O ganlyniad, roeddent o'r farn mai dim ond mesurau lliniaru penodol a chyfyngedig sydd eu hangen, os o gwbl, y tu hwnt i sicrhau darpariaeth ddwyieithog o ansawdd da.

**Cwestiwn 43**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig i'w codi nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, nodwch eich sylwadau yma.**

**Cyfanswm yr ymatebion (n): 56**

Roedd yr ymatebion i Gwestiwn 43 yn ehangach o ran cwmpas ac roedd llawer ohonynt yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau am y Gymraeg ac yn codi pryderon trawsbynciol am y diwygiadau i faes presenoldeb yn eu cyfanrwydd.

Roedd y materion a godwyd amlaf yn cynnwys:

- pryderon am gynnydd yn llwyth gwaith ysgolion ac yn eu baich gweinyddol yn sgil mwy o godau a'u cymhlethdod cynyddol;
- yr angen am enghreifftiau ac astudiaethau achos cenedlaethol clir i gefnogi prosesau dehongli a chymhwyso cyson;
- ceisiadau am ganllawiau cliriach ar drothwyon diogelu ac uwchgyfeirio, yn enwedig pan fo rhai codau yn cael eu defnyddio droeon neu am gyfnodau hir;
- pryderon ynghylch sut y gellir dehongli, defnyddio neu gamddefnyddio o bosibl data presenoldeb mwy manwl, gan gynnwys at ddibenion atebolrwydd neu arolygu;
- yr angen am wybodaeth gliriach am weithredu, hyfforddiant, parodrwydd ar gyfer system gwybodaeth reoli, a threfniadau pontio.

Er nad oes gan y materion hyn gysylltiad uniongyrchol â'r Gymraeg, nododd rhai ymatebwyr y gallai heriau gweithredu gael effaith anuniongyrchol ar gysondeb a hyder mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg oni chânt eu rheoli'n ofalus.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Mae'r safbwyntiau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd wedi bod yn amhrisiadwy wrth lywio penderfyniadau ar y newidiadau arfaethedig i godau presenoldeb yn yr ysgol.

Gan mai adroddiad cryno yw hwn, nid oes modd adlewyrchu pob sylw neu awgrym unigol a godwyd gan yr ymatebwyr. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hadolygu'n ofalus, ac ni ddylid ystyried bod hepgor pwyntiau penodol o'r adroddiad hwn yn arwydd eu bod wedi cael eu hanwybyddu.

Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r newidiadau arfaethedig i'r codau presenoldeb yn yr ysgol yng Nghymru. Roedd tua dwy ran o dair (68%) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r newidiadau arfaethedig.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gytûn bod y newidiadau yn gwella eglurder, yn cryfhau defnydd cyson, ac yn adlewyrchu arferion addysgol cyfredol yn well, yn enwedig trwy ehangu gwybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm wrth godau unigol a dadgyfuno categorïau presennol ymhellach. Daeth y gefnogaeth gryfaf o blith yr awdurdodau lleol ac ysgolion, a groesawodd y cam i wahaniaethu'n fwy clir rhwng presenoldeb, gweithgaredd addysgol cymeradwy ac absenoldeb, gan nodi hefyd bwysigrwydd monitro parhaus ac arweiniad pellach mewn meysydd mwy cymhleth fel dysgu ar-lein a darpariaeth amgen.

Cafwyd ymatebion penodol i dri maes, ac awgrymwyd gwelliannau i'r cynigion.

Roedd  ymatebion penodol mewn tri maes, gyda gwelliannau awgrymedig i'r cynigion canlynol

(1) dysgu ar-lein (Cod C5);

(2) cyfweliadau (Cod J1); ac

(3) Cau Ysgolion (Codau Y1-Y5).

Rydym wedi ystyried yr ymatebion hyn ac yn argymell gwneud y diweddariadau canlynol i'r fframwaith codio presenoldeb a'r canllawiau arfaethedig, fel y'u cyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae esboniad fel a ganlyn:

| **Ardal** | **Safbwynt Ymgynghori** | **Safbwynt diwygiedig yn dilyn ymgynghoriad** |
|---|---|---|
| **Dysgu Ar-lein** | Recordiwyd o dan C5; byddai hyn wedi bod yn absenoldeb awdurdodedig | Cytunwyd i ddysgu ar-lein gael ei gydnabod fel gweithgaredd addysgol cymeradwy a fydd yn farc presennol.<br><br>**B1** - dysgu ar-lein sy'n weithgaredd addysgol cymeradwy a ddarperir gan yr awdurdod lleol, gydag amodau ar oruchwyliaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | awdurdodau lleol, ailintegreiddio, diogelu, defnyddio camera, ac anghymhwysedd ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â gwaharddiad<br><br>**B2 –** dysgu ar-lein sy'n weithgaredd addysgol cymeradwy a gynigir trwy ddarpariaeth dysgu ar-lein dan arweiniad ysgol ond ar y cyd ag amodau ar oruchwyliaeth A Ll, ailintegreiddio, diogelu, defnyddio camera, ac anghymhwysedd ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â gwaharddiad |
| **Cyfweliadau (Cod J)** | Cod J1 byddai hwn wedi cael ystyr ystadegol o absenoldeb awdurdodedig | **J1 wedi'i ddiwygio i J,** sy'n cadarnhau bod cyfweliadau allanol ar gyfer addysg bellach yn weithgaredd addysgol cymeradwy sy'n farc presennol. |
| **Codau Y (Cau Ysgolion)** | Sawl is-gategori Y1, Y2, Y3, Y4 ac Y5 | **Diwygiwyd i ddau gategori Y1 ac Y2**: sy'n cynrychioli cau rhannol (Y1) a chau llawn (Y2) o ysgolion. |

Mae cyflwyno'r cod B1 ar gyfer dysgu ar-lein yn ymateb i adborth ymgynghori, yn enwedig gan awdurdodau lleol, bod dysgu ar-lein yn cael ei ddefnyddio fel ymyrraeth tymor byr, wedi'i gynllunio lle nad yw dysgwyr yn gallu mynychu'n bersonol a lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei gomisiynu, ei fonitro a'i adolygu'n weithredol.

Yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, cynigiom y dylid cofnodi dysgu ar-lein o'r natur hon fel absenoldeb awdurdodedig. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr adborth a dderbyniwyd, rydym bellach yn cynnig bod dysgu ar-lein a ddarperir gan awdurdodau lleol yn cael ei godio fel B1 a'i gydnabod fel gweithgaredd addysgol cymeradwy sy'n cyfrif fel marc presennol.

Cynigir y cod B2 ar gyfer dysgu ar-lein i wahaniaethu rhwng dysgu ar-lein dan arweiniad ysgol a darpariaeth ‘Addysg Heblaw yn yr Ysgol’ (AHY) awdurdodau lleol, a fyddai'n parhau i gael ei gofnodi o dan B1. Bydd dysgu ar-lein dan arweiniad yr ysgol yn cael ei godio B2.

O dan y canllawiau diwygiedig, byddai'r ddau fath o ddarpariaeth yn ddarostyngedig i'r un disgwyliadau, gyda phob achos yn cael ei ystyried trwy banel awdurdod lleol neu broses gynghori. Byddai cymryd y dull hwn yn sicrhau goruchwyliaeth, diogelu ac ansawdd cyson, sut bynnag mae’r ddarpariaeth yn cael ei gynnig. Yn ymarferol, mae'r ddau lwybr wedi'u codio fel gweithgaredd addysgol cymeradwy wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol ac felly byddant yn cael eu cofnodi fel presenoldeb.

Rydym yn hyderus bod y gwelliant hwn yn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn hollbwysig ac yn atgyfnerthu'r disgwyliad o ailintegreiddio i ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac y dylai dysgu ar-lein barhau i fod yn eithriadol, yn gyfyngedig mewn amser ac yn ddarostyngedig i drefniadau diogelu cadarn, yn hytrach nag yn opsiwn sydd ar gael yn rheolaidd i ysgolion. Y gwelliant bod dysgu ar-lein yn y cyd-destun hwn yn adlewyrchu darpariaeth a reolir yn dynn gan yr ysgol a/neu'r awdurdod lleol.

Mae'r holl newidiadau wedi'u cymeradwyo gan y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg. Bydd y newidiadau yn cael eu gweithredu'n barod i'w defnyddio o fis Medi 2026.